



Gwarchodfa Natur Genedlaethol **Cwm Idwal**

*Y mae hud yng Nghwm Idwal
A'i swynion dwfn sy'n ein dal*

IEUAN WYN





Lleoliad

Mae'r ganolfan ymwelwyr wedi ei lleoli wrth ymyl ffordd yr A5, tua 5 milltir i'r de o Fethesda a thua 4 milltir i'r gorllewin o Capel Curig, ar ben gorllewinol Llyn Ogwen.

Mae maes parcio talu ac arddangos y tu allan i'r ganolfan, sy'n addas ar gyfer ceir a bysiau bach. Cynghorir bysiau mawr i barcio lle sy'n gyfreithiol oddi ar y ffordd e.e. y meysydd parcio sydd ar ochr Llyn Ogwen, oddeutu 1km o'r ganolfan i gyfeiriad Capel Curig.

Cyfleusterau Mae toiledau ac un gawod ar y safle, sy'n agored drwy'r dydd a nos, ac mae yna rywfaent o le i eistedd y tu mewn a thu allan i'r ganolfan.

Lluniaeth Yn y ganolfan ymwelwyr mae yna giosg lluniaeth ysgafn sy'n gwerthu byrbrydau poeth ac oer, ac mae hwn ar agor rhwng 9am a 4pm fel arfer gyda'r amser cau yn hwyrach yn ystod yr Haf.

CÔD POST
LL57 3LZ

CYFEIRNOD GRID
SH 649 603

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gaffi ym Mwthyn Ogwen sydd fel arfer yn agored ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

Trefnu'r ymweliad

Dyma brif negeseuon diogelwch Mynydda Diogel:

1. Paratowch yn ofalus

Gwnewch yn siŵr bod gennych y cyfarpar cywir gyda chi fel eich bod yn barod ar gyfer unrhyw beth, boed hynny'n dda neu'n ddrwg! Bydd angen i chi ddod â map a chwmpawd, torsh, bwyd a diod, chwiban, pecyn cymorth cyntaf a ffôn symudol â'r batri wedi'i wefru'n llawn. Mae hyd yn oed yn bosibl y byddwch angen eli haul a het ar ddiwrnod braf!

2. Gwybodaeth ddiweddaraf am y tywydd a'r cyflwr dan draed

Edrychwch ar ragolygon y Swyddfa Dywydd ar gyfer mynyddoedd Eryri cyn i chi gychwyn, a byddwch yn barod i droi'n ôl os bydd y tywydd yn gwaethygu - bydd y mynyddoedd yn dal i fod yma i chi eu mwynhau y tro nesaf y byddwch chi'n ymweld â'r ardal.

3. Gwisgwch yn briodol

Gall y tywydd a'r tymheredd newid yn ddramatig rhwng godre'r mynydd a'r copa. Rhaid gwisgo esgidiau cerdded cadarn, sawl haen o ddillad gan gynnwys rhai cynnes, menig a het, yn ogystal â dillad a throwsus glaw.

4. Cadarnhewch eich bod yn gwybod ble 'da chi'n mynd

Dylech gynllunio eich taith cyn cychwyn a gofyn am gyngor yn lleol. Dewch â map a chwmpawd gyda chi, a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut i'w defnyddio; dewiswch lwybr sy'n addas ar gyfer lefel ffitrwydd a phrofiad eich grŵp. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod faint o amser y dylai gymryd, a faint o'r gloch y bydd hi'n tywyllu.

5. Adnabod eich gallu a therfynau

Er bod mentro allan i'r mynyddoedd yn weithgaredd dymunol iawn, gall fod yn galed hyd yn oed yn yr haf – rhowch her i chi eich hunan, ond byddwch yn ymwybodol o lefelau ffitrwydd a phrofiad y grŵp i gyd – nid rhai chi eich hunan yn unig.

Mewn argyfwng, cofiwch ...

.. Os oes angen galw ar dîm achub mynydd, rhaid i chi ddeialu **999**, a **gofyn am yr Heddlu**, ac wedyn **Tîm Achub Mynydd**.



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal


TROSOLWG / CYFLWYNIAD

Ym 1954, dynodwyd Cwm Idwal fel y Warchodfa Natur Genedlaethol gyntaf yng Nghymru, a heddiw mae'n fan poblogaidd iawn i ystod eang o ymwelwyr.

Y prif reswm dros ddynodi Cwm Idwal fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol oedd y ddaear unigryw a geir yma. Yr ail reswm yw'r planhigion prin hynny sy'n gysylltiedig â'r ddaear hwnnw. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru'n cydweithio i reoli Cwm Idwal.

ARWYNEBEDD
3.88km²
398 hecтар

UCHDER
373m
1001m



Tymheredd: www.thebmc.co.uk/idwal

Parchwch Diogelwch Mwynhewch

Parchwch bobl eraill

Meddyliwch am y gymuned yr ardal ac am y bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored

Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oedden nhw ac arhoswch ar y llwybrau oni bai fod mynediad agored ar gael

Diogelwch yr amgylchedd naturiol

Peidiwch a gadael unrhyw arwydd eich bod wedi yno, ac ewch â'ch sbwriel gyda chi

Cadwch gŵn dan reolaedd effeithiol

Mwynhewch a gwnewch yn siwr eich bod yn saff


Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod am unrhyw beth anisgwyl

Dilynwch y cyngor a'r arwyddion lleol.

Y côd cefn gwlad

Pan fyddwch allan yn mwynhau cefn gwlad Eryri, cofiwch wneud hynny mewn modd cyfrifol er mwyn gwarchod bywyd gwyllt a bywoliaeth perchnogion tir yr ardal.

Cewch fwy o wybodaeth wrth ddilyn y ddolen ar waelod y dudalen hon.





Mynediad

Mae Cwm Idwal yn ardal o fynediad agored. Fodd bynnag, mae nifer o lwybrau pwrpasol o fewn y warchodfa i chi fwynhau, ac sydd hefyd yn amddiffyn y cynefinoedd prin.



Mae esboniad lawn o beth yw tir mynediad i'w gael yma:

www.naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/open-access-land/?lang=cym

Isod mae cylchdeithiau posib, y gallech eu dilyn yng Nghwm Idwal:

www.eryri-npa.gov.uk/cym/visiting/walking/mountain-walks/cwm-idwal

www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/carneddau-and-glyderau/trails/taith-cwm-idwal

Mae gwybodaeth am ddringo gaeaf cyfrifol i'w gael fan hyn:

www.snowdonia-active.com/upload/documents/nwwgwelshA4lo-res.pdf

Mae Lôn Las Ogwen yn rhedeg o Fangor at y Ganolfan Ymwelwyr, cewch ragor o wybodaeth yma:

www.sustrans.org.uk/ncn/map/route/lon-las-ogwen



Mae nifer o ddringfeydd i'ch herio yn yr Haf a'r Gaeaf, ac mae digon o lyfrau ar gael sy'n dangos llwybr y dringfeydd. Mae amryw o lyfrau i'ch helpu chi ddysgu am lwybrau'r dringfeydd hyn yng Nghwm Idwal ac Eryri ac mae cyngor ar ddringo mynydd i'w gael yma:

<http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/shop/guides/climbing>

<https://www.youtube.com/watch?v=FchMumzJzF4>

Daeareg

Cafodd Cwm Idwal ei ddynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol yn 1954, yn bennaf oherwydd y ddaeareg unigryw a geir yma, ac yn ail oherwydd y planhigion prin hynny sydd wedi ymgartrefu ar hyd y llethrau.

Yng Nghwm Idwal mae creigiau gwaddodol, igneaidd a metamorffig gafodd eu ffurfio yn ystod y cyfnod Ordofigaidd, tua 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Cafodd y creigiau hyn eu ffurfio drwy brosesau dyddodi ar waelod y môr yn ogystal â phrosesau folcanig a oedd yn cynhyrchu haenau o lwch, lludw a llifoedd lafa, ac yna drwy rymoedd cywasgu a chaledu.

Yn ddiweddarach, tua 40 miliwn o flynyddoedd yn ôl, roedd grymoedd tectonig enfawr yn plygu a chywasgu'r haenau hyn ymhellach wrth i gramen y ddaear wrthdaro gan greu ffurf tonnau plygiedig yn y graig.

Gelwir gwaelodion y plygiadau hyn yn synclinau, a gwelir plyg synclin Idwal yn rhedeg i fyny'r Twll Du yng Nghefn Cwm Idwal. O bopty'r Twll Du, gwelwn le yr oedd gwely'r môr wedi ei godi. Heddiw mae'n bosib gweld tystiolaeth o hyn mewn ffurf ffosiliau Braciopodau, sef anifeiliaid a oedd yn byw ar waelod y môr, a geir ar gopa'r Garn (*SH632595*) ac ar hyd y Gribin (*SH651686*).





Mae'r darlun uchod yn dangos natur y plygu a oedd yn ganlyniad i wrthdaro tectonig. Gellir gweld y darlun gwreiddiol ym Mwthyn Ogwen, sef canolfan Ceidwaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ni fuasai'n bosib gweld trawstoriad o synclin Idwal yn y Twll Du oni bai am ddylanwad y rhewlifoedd, yn ystod Oes y Rhew, rhwng 10,000 a 13,000 o flynyddoedd yn ôl.

Charles Darwin

Mae Cwm Idwal wedi denu nifer fawr o bobl i'w astudio dros y blynyddoedd. Un o'r rheiny oedd y daearegwr a'r ecolegydd Charles Darwin. Ymwelodd Charles Darwin â Chwm Idwal wrth ddysgu technegau archwilio daearegol gyda'i athro Adam Sedgwick ym 1831. Aeth 11 mlynedd heibio cyn i Charles Darwin ymweld â Chwm Idwal eto, ond yn ystod y cyfnod hwn, mynychodd ddarlithoedd am ddam-canïaethau rhewlfol, a theithiodd i Dde America i weld rhewlifoedd yn Nhiera del Fuego.

Yn 1842 dychwelodd Charles Darwin i Gwm Idwal gyda gwybodaeth newydd a gadarnhaodd nifer o'r damcanïaethau rhewlfol hyn. Gallwch ddarllen mwy o hanes Charles Darwin yn erthygl ganlynol gan y gymdeithas ddaearegol:

www.geolsoc.org.uk/Geoscientist/Archive/November-2008/Rocks-of-ages

Darllen ymhellach: www.eryri.llyw.cymru/visiting/ogwen/darwins-snowdonia/geological-history?name=?name=


Daearyddiaeth

TIRFFURFIAU RHEWLIFOEDD

Yn ystod Oes y Rhew, roedd haen drwchus o rew dros ardal eang o Eryri ac roedd rhewlifoedd llai yn ffurfio pan oedd eira yn cywasgu i ffurfio talpiau mawr o rew a oedd yn symud i lawr y mynyddoedd.

Roedd y rhewlifoedd hyn yn casglu mewn cymoedd megis Cwm Idwal, Cwm Cneifion a Chwm Clyd ac wrth symud i lawr y llethrau roeddent yn plicio cerrig o waliau cefn y cymoedd ac yn sgrafellu'r gwaelod i adael pantiau bas. Wrth i'r rhewlifoedd gilio roedd defnydd yn cael ei ddyddodi mewn tomenni a elwir yn farianau. Mae marianau ger Llyn Idwal a elwir yn 'Beddau Milwyr Ynys Prydain'. Ceir un marian hir yn rhedeg ar ochr ddwyreiniol y Llyn sydd, ynghyd â'r graig galed ym mhen Gogleddol y Cwm, yn ffurfio ymylon llyn rhewlifol - Llyn Idwal. Mae'r tirffurfiau hyn i'w gweld yng Nghwm Idwal heddiw, ac yn destun astudiaeth i nifer helaeth o fyfyrwyr o bob oed.

Mae siâp powlen Cwm Idwal yn nodweddiadol iawn o gwm rhewlifol, gyda wal gefn ac ochrau serth, marianau a llyn.





Mae Nant Ffrancon, sydd i'r Gogledd o Gwm Idwal, yn ddyffryn siâp 'U' neu gafn rhewlifol clasurol, gyda dyffryn ag ochrau serth, llawr gwastad a'r Afon Ogwen (sy'n *afon afrwydd*) yn llifo ar hyd llawr y dyffryn.



Mae'r meini dyfod hefyd yn rhinweddau rhewlifol yn y tirlun



Mae rhybuddion fel y gwelwn yma i'w gweld ger yr A5, mae nhw'n rhybuddio y gallai deunydd ddisgyn o'r mynydd.



Mae prosesau daearyddol yn dal i ddylanwadu ar y tirlun yng Nghwm Idwal a'r ardal o'i gwmpas.
Mae'r prosesau rhewi-dadmer yn dal i falu'r creigiau yn fanach bob blwyddyn, ac mae tirlithriadau yn gallu digwydd ar y llethrau mwyaf serth.

Hindreulio

Mae'r creigiau'n agored i'r elfennau mewn amryw o lefydd, yn enwedig ar y llethrau a'r copaon uchaf.

Fodd bynnag, ar y tiroedd tu hwnt i'r copaon, mae'r rhan fwyaf o greigiau yn yr ardal wedi eu gorchuddio gan haenau o gerrig, dyddodion rhewlifol, pridd a llifwaddod (*alluvium*). Gwelir tystiolaeth amlwg o rewi-dadmer - sgri, cludeiriau a thyrrau (*tors - darnau â chraig mwy gwrthiannol na chafodd mo'u hindreulio i'r fath raddau â'r gweddill*). Mae yna wahaniaethau sy'n adlewyrchu natur y creigiau, e.e.

- a) Mae tywodfaen a chreigiau igneaidd a folcanig yn fwy gwrthiannol, gyda bregion ymhellach o'i gilydd. Torrodd y rhain yn ddarnau mwy gan ffurfio tyrrau a chludeiriau.
- b) Ble mae llinellau hollti'n agos, e.e. rhwng cerrig llaid (*mudstones*) a cherrig silt (*siltstones*), torrodd y creigiau'n ddarnau llai i greu llethrau sgri, e.e. Cwm Perfedd, Cwm Ceunant, Cwm Bual.



Mae dros 50 twr ar y Glyder Fawr, gydag uchder cyfartalog o 2-5 metr. Ar y Glyder Fach maent yn fwy fyth, e.e. Twr Castell y Gwynt, sydd dros 50 metr o uchder ar un ochr. Mae hindreulio biolegol yn digwydd ar hyd a lled yr ardal. Daw'r enghreifftiau amlycaf o'r llethrau uchaf, e.e. uwchben Cwm Idwal, gyda choed a llwyni unigol yn tyfu o holltau yn y creigiau mwyaf anghysbell.

Mae prosesau hindreulio cemegol yn cael effaith ar y creigiau yma hefyd, gydag elfennau yn adweithio gyda'r graig i'w gwneud yn llai gwydn, ac felly'n fwy tebygol o gael eu hindreulio. Nid oes calchfaen ogwmpas Cwm Idwal, felly ni cheir carbonadu (*er bod hyn i'w weld ochr arall y Fenai, yng nghalchfaen Penmon*)

Ecosystemau

Mae Ecosystem yn gymdeithas o organebau biolegol (anifeiliaid, planhigion, a chreaduriaid byw eraill) sy'n byw yn yr un amgylchedd.


O fewn ecosystem mae defnydd ac egni yn symud rhwng yr organebau. Mewn ecosystem mae cydbwysedd rhwng yr organebau â'r elfennau ac mae'r hinsawdd yn chwarae rhan bwysig yn y berthynas hon. Mae newid mawr o fewn ecosystem yn gallu arwain at nifer o'r organebau biolegol yn marw.

Priddoedd

Mae pridd yn cael ei ffurfio wrth i ddeunydd organig bydru, a'i dreulio gan organebau byw. Mae'r math o bridd a geir mewn ecosystem yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis y deunydd organig sydd ar gael i ffurfio'r pridd, a'r math o hinsawdd. Mae'r hinsawdd hefyd yn diffinio pa mor gyflym y mae pridd yn cael ei ffurfio. Yng Nghwm Idwal, mae'r dirwedd yn cael cryn effaith ar ffurfiant y pridd. Mae tirwedd yn effeithio ar briddoedd mewn nifer o ffyrdd:

- a) **Traeniad** - gwael ar lwyfandiroedd uchel a throed llethrau. Da ar lethrau.
- b) **Trawsgludiad deunydd** - o rannau uchaf a chanol llethrau tua'r gwaelod (*effaith disgyrchiant a dŵr - erydiad a mas-symudiad*).
- c) **Trwytholchiad** - o'r rhannau uchaf at y rhannau isaf.

Yn ogystal â'r dirwedd mae cemeg y craigwely yn effeithio ar briddoedd ardal Cwm Idwal a Nant Ffrancon, a'r berthynas rhwng y dirwedd, y priddoedd a'r hinsawdd sy'n diffinio pa blanhigion sydd wedi addasu i oroesi yn yr ardal hon.



Olyniaeth

Cyn bod ecosystem yn sefydlu rhaid i newidiadau ddigwydd yn yr amgylchedd. Mae'r newidiadau hyn yn digwydd mewn camau, a gelwir y camau hyn yn olyniaeth.

Mae bron i pob ecosystem ar y tir yn cychwyn ar y craigwely, a dyna ddigwyddodd yng Nghwm Idwal. Pan ddaeth creigiau, neu'r craigwely i'r golwg yn dilyn oes y rew ddiweddaraf y cymunedau cyntaf i sefydlu ar y creigiau oedd y cennau. Nid planhigion yw cennau ond cymunedau o algâu neu facteria sy'n cyd-fyw yn symbiotig gyda ffyngau. Unwaith i'r cennau ymsefydlu, yn fuan iawn daeth y mwsoglau ac wrth i'r rhain bydru cynhyrchwŷd biomas, sef pridd. Unwaith i drwch o fomas, neu bridd, sefydlu roedd llawer mwy o blanhigion yn gallu ymsefydlu ar y creigiau hyn i ffurfio cynefinoedd.


Sefydlodd planhigion arctig-alpaidd ar y llethrau garw ac mae rhai o'r rhain i'w gweld ym mhellafoedd gogleddol Eryri hyd heddiw - brwynddail y mynydd neu Lili'r Wyddfa, tormaen gyferbynddail, â thormaen serenog a gludlys mwsogl. Wrth i'r dyffrynnoedd a'r cymoedd gynhesu cyrhaeddodd coed derw, llwyfen a bedw fu'n ymledu'n raddol tua'r gogledd o Ewrop, a mudodd y planhigion arctig-alpaidd i'r llethrau uchaf. Pen draw olyniaeth yn yr ardal yma oedd coedwigoedd derw, a digwyddodd hyn tua 5000cc pan ledaenodd i uchder o 600m yn Eryri. Ers hynny bu lleihad oherwydd newid hinsoddol a dyfodiad anifeiliaid pori yn yr ardal. Gwelir gweddillion y coed a'u hanes ym mawndir Cwm Idwal sy'n dystiolaeth fod digon o goed yma unwaith. Mae gweddillion ambell gangen, ynghyd â'r pail sydd yn y mawn yn gofnod o'r newid fu yma dros amser.

Planhigion prin

Mae nifer o blanhigion anhygoel yng Nghwm Idwal, ac mae'r rhan fwyaf o'r planhigion mwyaf prin yn rhai 'Arctig-alpaidd'.



Tormaen serenog (*Saxifraga stellaris*)



Cronnell (*Trollius europaeus*)



Derrig (blodyn gwyn) (*Dryas octopetala*)
a gludlys mwsoglyd (pinc) (*Silene acaulis*)



Mwsogl racomitrium

Fel sy'n amlwg o'r enw 'Arctig -alpaidd', mae'r planhigion yma wedi ymgartrefu mewn hinsoddau oer iawn fel y ceir yn yr Arctig, ym mynyddoedd uchel yr Alpau, ac yng Nghwm Idwal.

Mae ardaloedd o fewn Cwm Idwal yn cynnig cynefin delfrydol ar gyfer rhai o'r planhigion hyn, sydd wedi addasu yn berffaith ar gyfer byw yn y fath le. Rhai o nodweddion y planhigion 'Arctig-alpaidd' yw bod y planhigion blodeuol yn tyfu mewn matiau neu 'glustogau' isel sydd â thymor blodeuo byr; mae hyn yn eu diogelu rhag yr elfennau eithafol sydd i'w cael yn yr ardaloedd hyn. Fel arfer mae'r planhigion hyn yn tyfu mewn mannau uchel, uwch na 600m, ac yn wynebu'r Gogledd Ddwyrain.

Un o'r planhigion 'Arctig-alpaidd' cyntaf i flodeuo yng Nghwm Idwal yw'r tormaen porffor, neu'r tormaen gyferbynddail, neu i roi ei enw Lladin, *saxifraga oppositifolia*. Yn y Saesneg 'Purple saxifrage' yw ei enw. *Gweler y llun ar y dudalen nesaf.*

Mae'r tormaen cyferbynddail, fel a welwn ar y dde, fel arfer yn blodeuo o tua mis Chwefror drwy fis Ebrill, ond mae'r tymor blodeuo yn newid yn amrywio ac yn dibynnu ar y tywydd gaeafol a gawn yng Nghwm Idwal.





Mae'r enw tormaen cyferbynddail yn fwy addas na thormaen borffor yng Nghwm Idwal, gan fod blodau gwyn a phinc i'w cael ar y tormaenni hyn yma. Gwelir llun o'r tormaen porffor sydd â blodyn gwyn ar y chwith.

Yn Norwy gelwir y tormaen porffor yn rødsildre, sef y tormaen coch, gan fod blodau mwy coch i'w cael yno, ond yr un planhigyn yw'r ddau. Mae lliwiau'r blodau yn cael eu diffinio gan enynnau'r blodau sydd yn y cynefin. Gallai'r blodyn gwyn fod yn ganlyniad o gyfyngiad genynnol **ym** mhlanhigion cyferbynddail Cwm Idwal.

Ffordd effeithiol o geisio adnabod y planhigyn yw drwy astudio strwythur y dail. Yr elfen fwyaf amlwg, ar ôl y blodau yw'r dail 2-6mm, sy'n tyfu gyferbyn â'i gilydd mewn 4 rhes, felly mae'r enw tormaen cyferbynddail yn addas iawn. Mae smotiau gwyn ar flaenau'r dail hefyd – crynhoad o galsiwm sy'n creu'r smotiau hyn.

Un o'r planhigion 'Arctic- alpaidd' enwocaf sy'n tyfu yng Nghwm Idwal yw brwynddail y mynydd, neu Lili'r Wyddfa, sy'n tyfu ar wynebâu clogwyni uchaf Y Cwm.

Brwynddail y mynydd, *Lloydia serotina*
(Ar ôl y *naturiaethwr* Edward Llwyd)
/ *Gagea serotina*, Snowdon Lily



Planhigion cigysol

Mae Cwm Idwal yn ardal lle mae'r glawiad blynyddol yn gymharol uchel.

Pan fydd dŵr yn llifo'n gyson drwy'r pridd mae'n golchi'r mwynau, e.e. Nitrogen o'r pridd corsiog. Mae priddoedd corsiog hefyd yn fwy asidig, ac mae hyn yn cyfyngu ar nifer y rhywogaethau all fyw yma.

Mae dau blanhigyn arbennig yng Nghwm Idwal sydd wedi addasu ar gyfer goroesi mewn amodau o'r fath, sef tafod y gors (*Pinguicula vulgaris*), a'r gwlithlys (*Drosera rotundifolia*).

Mae'r planhigion hyn yn wahanol i blanhigion eraill yng Nghwm Idwal gan eu bod yn dal a threulio pryfetach. Mae'r planhigion wedi addasu i wneud hyn er mwyn cael y mwynau angenrheidiol i dyfu, blodeuo a hadu.



Gwlithlys



Tafod Y Gors

Er mwyn mesur natur a chyflymdra'r olyniaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro cyfansoddiad y llystyfiant pob pum mlynedd.

Mae sefydliadau eraill hefyd yn gwneud ymchwiliadau achlysurol, gyda chyrff megis y BTO, a'r RSPB yn trefnu arolygon, ac mae prifysgolion yn defnyddio'r warchodfa ar gyfer addysgu myfyrwyr mewn technegau ecolegol, daearyddol a rheolaeth cefn gwlad.

Bywyd gwyllt Cwm Idwal

Yng Nghwm Idwal mae cofnod o nifer helaeth o anifeiliaid, o anifeiliaid di-asgwrn cefn i bysgod, amphibiaid, mamaliaid ac adar.

Mae cynefinoedd arbennig Cwm Idwal yn cynnwys y planhigion hynny sy'n denu pryfetach neilltuol, sydd yn eu tro yn denu'r anifeiliaid hynny sy'n eu hela. Mae'r cynefinoedd hefyd yn darparu cyfleoedd nythu, bwydo a paru, boed hynny yn glogwyn serth, afon neu ardal o rostir sych.

Mae arolygon o Gwm Idwal yn cofnodi'r anifeiliaid hynny sy'n byw yno. Bydd yr arolygon hyn yn cael eu goruchwyllo gan Bartneriaeth Cwm Idwal.

Mae cyfleon i'r cyhoedd gofnodi pa anifeiliaid sydd i'w canfod yma drwy wirfoddoli gyda chyrff cadwraethol, neu gan ddefnyddio meddalwedd cofnodi fel 'Birdtrack', sef system gofnodi cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth Adarydda Brydeinig

<https://www.bto.org/volunteer-surveys/birdtrack/about>

Mae croeso i'r cyhoedd rannu cofnodion o anifeiliaid neu blanhigion drwy ddarparu llun, lleoliad a'r amser cofnodi i'r swyddogion yn y swyddfa ger y ganolfan ymwelwyr neu ym Mwthyn Ogwen.



Hebog Tramor - *Falco Peregrinus*




Llyffant Cyffredin (*Rana Temporaria*)



Trilliw Bach (*Aglais Urticae*)



Mursen Fawr Goch (*Pyrrhosoma Nymphula*)



Siani Flewog Wulyn y Grug (*Lasiocampa Quercus*)




Pry Copyn Eryri (*Coelotes Atropos*)

Pobl y cwm - yr hanes cudd

Mae dylanwad pobl yn ardal Cwm Idwal heddiw yn eithaf amlwg yn y tirlun. Ond mae mwy i'w ddarganfod am hanes ein cyndeidiau o dan y wyneb.

Mae pobl wedi bod yn byw ym mynyddoedd Eryri ers miloedd o flynyddoedd, ac mae'r map isod yn dangos faint o safleoedd archeolegol sydd wedi gwasgaru dros Y Glyderau a Chwm Idwal.




Wedi i'r rhew gilio yn dilyn oes y rhew, symudodd pobl i'r ardal. Mae'n debygol mai llwythi crwydrol oedd y mudwyr cyntaf i Eryri, gan symud o ardal i ardal i hela. Yn dilyn astudiaeth ddiweddar yng Nghwm Idwal, darganfuwyd darnau bach o gwarts, ger adfail o Hafoty, ger Clogwyn Y Tarw, ac ar y traeth sydd ar ben mwyaf gogleddol Llyn Idwal. Gan astudio'r darnau hyn o gwarts o dan lens microsgop, roedd yr archeolegwyr yn gallu gweld bod y darnau wedi eu hogi'n fwriadol.

Tystiolaeth bellach sydd gennym yng Nghwm Idwal fod pobl wedi ymgartrefu yma yw'r olion cytiau crwn. Mae lleoliadau rhai o'r cytiau hyn i'w gweld ar y map blaenorol o safleoedd archeoleg. Mae llinell amser yn dangos yr oesoedd gwahanol yn hanes pobl yng Nghwm Idwal.



Dadansoddwyd fod y darnau uchod yn dyddio'n ôl i'r Mesolithig Hwyr (6000 – 9000 o flynyddoedd yn ôl)



Gallwn weld enghraifft o un safle cwt crwn ger Cwm Idwal heddiw - Mae gweddillion y cwt crwn ym mlaen y llun. Gallwn weld enghreifftiau o sut y byddai'r aneddiadau o'r oesoedd efydd a haearn wedi edrych, diolch i'r gwaith sydd wedi ei gwblhau ym Melin Llynnon, ar Ynys Mon, ac yng Nghastell Henllys yn Sir Benfro - Gweler y lluniau ar y dudalen nesaf.





Yn ystod oes yr haearn, roedd newidiadau mawr yn y ffordd yr oedd pobl yn amaethu. Yn hytrach na theithio o gwmpas efo'u hanifeiliaid, roedd pobl yn dechrau amgáu rhannau o dir a sefydlu caeau syml ar gyfer pori. Roedd unrhyw newid yn y defnydd tir yn effeithio ar y tirlun gan gynnwys dosbarthiad planhigion ac anifeiliaid.



Mae'r llun yma yn amlygu prinder coed yng Nghwm Idwal. Roedd digodwigo yn yr ardal wedi cychwyn amser maith yn ôl. Mae ymarferion amaeth ers hynny wedi golygu nad coed yw'r prif blanhigion yn y tirlun heddiw.

Mae coed megis criafolen a chelyn yn tyfu yn y mannau mwyaf anghysbell yng Nghwm Idwal, er enghraifft ar glogwyni serth Y Twll Du.

Ac os yw'r arbrawf bugeilio anifeiliaid pori o Gwm Idwal yn parhau, efallai y gwelwn ni goed yn ail sefydlu yma yn y dyfodol.



Mae'r llun uchod yn dangos sut yr oedd pobl yn cynaeafu gwair tua'r 1950au, ond mae llawer mwy o fanylder ar draddodiadau amaethu yn hanes lled ddiweddar yr ardal i'w gael yn llyfr Margaret Roberts – 'Oes o fyw ar y mynydd'

Gallwn ddysgu llawer am arferion ein cyndeidiau wrth astudio'r safleoedd archeolegol, ond mae'r enwau lleoedd sydd gennym yng Nghwm Idwal a Nant Ffrancon yn gallu dweud cyfrolau am ein hanes hefyd. Un elfen sy'n dod i'r amlwg yn y tirlun yw'r cyfeiriad at gadw gwartheg, neu ŷch. Yng Nghwm Idwal ei hun, mae Clogwyn y Tarw, ac ymhellach i lawr Nant Ffrancon mae Cwm Bual. Mae'r gair Bual yn cynnwys yr un elfen -'Bu', a'r gair bugail; mae'n cyfeirio at y ffaith mai ymdrin â gwartheg yr oedd bugail yn ei wneud yn wreiddiol yng Nghymru.

Llinell amser

Mae'r holl ddigwyddiadau a nodir yn y llinell amser isod wedi cael effaith ar y tirlun yng Nghwm Idwal a'r ardal gyfagos.



Mae cyfrol Thomas Pennant ('A Tour in Wales' 1781), a chyfrol Hugh Derfel Hughes (*Hynafiaethau Llandygai a Llanllechid* 1866) yn gyfrolau sydd wedi nodi llawer o rinweddau lleol. Mae awduron y cyfrolau hyn wedi ymchwilio'n drylwyr i ystyr enwau lleoedd, arferion pobl, hanesion a phlanhigion, yn ogystal â mapio rhai o'r llwybrau sydd i'w cael ar y mynyddoedd cyfagos.



Thomas Pennant




Hugh Derfel Hughes



O. G. Jones

Un o gymeriadau enwocaf y byd dringo, lleol a chenedlaethol, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Owen Glynne Jones.

Roedd O.G. Jones yn ddringwr o fri, ac yn ogystal â dyfeisio'r ffordd gyfoes o werthuso dringfeydd yn ôl yr her a oedd yn gwynebu'r dringwr, mae hefyd yn cael ei gydnabod fel un o'r dringwyr cyntaf i ddringo dringfeydd mwyaf poblogaidd ar Graig Idwal a Thryfan yn y dull gyfoes gyda rhaffau.



Darllen pellach

Mae mwy i'w ddysgu am fynyddau yng nghyfrolau Ioan Bowen Rees

Isod ceir rhestr o enwau yn yr ardal a phwt o esboniad gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Afon Ogwen Mae Afon Ogwen yn codi ar Garnedd Dafydd ac yn llifo i Lyn Ogwen, trwy Ddyffryn Ogwen ac i'r Fenai yn Aberogwen. Perthyn i ddosbarth o enwau afonydd sydd wedi'u henwi ar ôl creaduriaid. Mae'n debygol bod yr elfen gyntaf og yn golygu 'cyflym, llym' (*mewn gwrthgyferbyniad â diog*). Awgrym arall yw mai Gwyddeleg og 'ieuanc' a geir yma. Yr ail elfen yw Banw sef 'porchell, mochyn bach', ac mae'n disgrifio afon sy'n twrio drwy'r tir fel y byddai mochyn bach yn gwneud. Cymharer ag Afon Hwch yn Llanberis, Afon Beinw yn Nolwyddelan, ac Afon Twrch ar y Berwyn.

Tryfan Mae dwy elfen i'r enw sef try-, elfen sy'n cryfhau (*fel yn tryloyw 'gloyw iawn'*), a ban yn golygu 'copa, pwynt, pig, corn' (*cymharer Bannau Brycheiniog sy'n cynnwys y ffurf luosog bannau*). Felly ystyr Tryfan yw mynydd ag iddo gopa amlwg neu flaen main. Mae'n wahanol iawn i'r Glyder Fawr sy'n gruglwyth blêr yn ei ymyl.

Glyder Fawr a Glyder Fach Ystyr cluder neu gludair yw 'pentwr, cruglwyth o goed neu gerrig sydd wedi'u casglu ynghyd'. Mae'n bosibl bod yr enwau'n cyfeirio at y pentyrrau o gerrig rhydd ar gopa'r ddau fynydd, neu o bosibl, at y creigiau hynny sydd yn nannedd y gwynt ar ochr orllewinol copa'r Glyder Fach. *Cymharer Dôl-y-gludair ger Dolgellau.*

Cwm Clud Cwm crog islaw'r Garn. Mae'n bosib bod y gair clud, 'llwyth wedi ei gludo', yn cyfeirio at y cerrig rhydd ar lethrau'r Ro Wen uwchlaw Llyn Clud. Posibilrwydd arall yw mai clyd yn golygu 'cysgodol, diddos' sydd yma, yn ddisgrifiad o natur y cwm. Mae Nant Clud (*Afon Cwm Clud*) yn llifo o Lyn Clud i Lyn Idwal.

Y Garn

Ystyr carn yw 'tomen gerrig'. Mae'n digwydd yn gyffredin mewn enwau brynau a mynyddoedd, er enghraifft Carn Fadrun, Llŷn, a'r Garn, Dolbenmaen.

Cwm Cneifion (neu Gwm Cneifiau)

Cwm crog islaw Bwlch y Ddwy Glyder. Ystyr cneifiau/ cneifion (*lluosog yr enw cnaif*) yw 'cudynnau o wllân wedi'u cneifio'. Mae'n bosib bod yr enw'n cyfeirio at y cerrig gwynion amlwg ar y llethrau sy'n atgoffa rhywun o ddarnau o wllân neu gneifion newydd (*gan mai allan ar y mynydd y byddai amaethwyr yn cneifio ers talwm*).

Y Foel Goch

Mae'r Foel Goch wedi ei lleoli uwchlaw Nant Ffrancon. Fel ansoddair, ystyr moel yw 'noeth' (*fel yn yr ymadrodd pen moel*). Fel enw, mae'n air am fryn neu fynydd llwm (*er enghraifft Moel Faban*). Mae coch yn cyfeirio at liw'r graig.

Nant Ffrancon

Gall nant olygu 'dyffryn' neu 'ffrwd'. Mae'n bosib bod ffranc (*lluosog ffrancon*) yn dynodi 'milwr cyflogedig estron' neu ei fod yn tarddu o'r Hen Saes. Franca sef 'gwaywffon, picell', ac mai disgrifiad ydyw o lifeiriant nerthol y nant, sy'n debyg i arf blaenllym, neu ynteu o greigiau pigog Braich Tŷ Du.

Castell y Gwynt

Mae Castell y Gwynt ar ochr orllewinol y Glyder Fach, yn nannedd y gwynt. Mae castell yn enw addas ar greigiau ysgithrog ar grib mynydd, fel tyrrau amddiffynfa uchel. (*Mae Castell y Geifr wrth ymyl y Garn yn enghraifft arall*).

Mae enwau lleoedd hefyd yn gallu datgelu mwy o'n hanes sy'n fwy diweddar.

Un o'r enghreifftiau hyn yw dylanwad Tywysogion Gwynedd, Llywelyn Fawr a'i fab, Dafydd ar y bobl leol. Credir fod y mynyddoedd Carnedd Dafydd a Llywelyn wedi eu henwi gyntaf mewn darn o ganu mawl gan un o feirdd yr uchelwyr, sef Rhys Goch Eryri. Mae'n rhaid bod tywysogion wedi bod yn uchel iawn eu parch i gadw eu henwau ar ddau o'r mynyddoedd uchaf yn yr ardal.

Rheoli'r warchodfa

Rheolir y warchodfa drwy bartneriaeth sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cyflogir swyddog drwy'r bartneriaeth. Mae nifer o ddynodiadau ar safle Cwm Idwal sy'n dylanwadu ar reolaeth y safle.

Isod mae rhestr o'r dynodiadau:

Gwarchodfa Natur Genedlaethol

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy>

Ardal Cadwraeth Arbennig

<http://jncc.defra.gov.uk/ProtectedSites/SACselection/sac.asp?EUCODE=UK0012946>

Safle RAMSAR


<http://jncc.defra.gov.uk/pdf/RIS/UK14007.pdf>

Cafodd Cwm Idwal ei ddynodi fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol ym 1954, ond mae'r rheoli wedi newid cryn dipyn ers hynny, ac o'r herwydd, mae'r tirlun wedi newid yn sylweddol hefyd. Diddymwyd defaid a gwartheg o Gwm Idwal tua 1998, ond yn ystod y 1960au a'r 1970au codwyd plotiau arbrofol i weld ar ba raddfa y byddai'r cynefin uchafbwynt hinsoddol terfynol, sef coed collddail, yn dychwelyd.


Gwelwn o'r lluniau ar y chwith bod y cynefinoedd wedi trawsnewid o laswelltir i rostir sych, ac yn y plot mwyaf, a'r plot mwyaf Gogleddol yng Nghwm Idwal, mae coed fel celyn a'r griafolen wedi dychwelyd.




1968



1984




1988




1994



2001



2004



2018



Heddiw mae'r warchodfa gyfan yn arbrawf mesur cyflymdra olyniaeth. Gan nad oes ffiniau o amgylch terfyn y warchodfa defnyddir gwasanaeth bugeiliaid i gadw defaid ar y tiroedd amaethyddol sy'n terfynu ar Gwm Idwal. Yn ogystal â rheoli'r bugeilio, rhaid rheoli effaith pobl ar Gwm Idwal hefyd. Mae nifer helaeth o bobl yn ymweld â Chwm Idwal pob blwyddyn, ac mae hyn yn gallu arwain at erydiad llwybrau, yn enwedig ar adegau prysuraf y flwyddyn.

Mae llwybrau troed effeithiol yn gymorth i warchod safle fel Cwm Idwal mewn nifer o ffyrdd. Mae llwybrau sydd ag wyneb cerrig a traeniad da yn ddeniadol iawn ar gyfer y canran uchaf o gerddwyr - sef teuluoedd, grwpiau addysg, a phobl sydd yn dechrau dod i adnabod y mynyddoedd. Tueddai'r mwyafrif o ymwelwyr i Gwm Idwal aros ar y llwybrau, er fo'r ardal gyfan yn ardal o fynediad agored.

Yn ogystal â darparu ffordd ddiogel i gerddwyr, mae llwybr sydd wedi'i gynnal yn effeithiol yn diogelu ardaloedd bregus cyfagos, gan ddenu pobl i ffwrdd o'r mannau lle mae planhigion prin, fel rhai 'Arctic-alpaidd', yn tyfu.

Fideo

<https://www.youtube.com/watch?v=uTz-kHkqGBTs>

Darlten pellach

<https://naturalresources.wales/days-out/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/managing-access/open-access-land/?lang=cy>

Beth yw erydiad llwybrau?

Mae erydiad llwybr yn gyfuniad o effaith yr elfennau ac effaith pobl.

Unwaith bydd llystyfiant a strwythur y pridd wedi ei wanhau gan draed pobl, bydd dŵr a gwynt yn cludo'r pridd i ffwrdd nes cyrraedd y craigwely neu haen o gerrig a chreigiau yn y pridd. Mae ardaloedd sydd wedi'i erydu fel hyn yn ymddangos fel creithiau yn y tirlun, sy'n gallu amharu ar harddwch ardal neu fygwth cynefinoedd wrth i'r ardal o erydiad ehangu.

Mae ardal Eryri a Chwm Idwal yn ardal o lawiad blynyddol uchel, ac mae'r tymheredd cymharol isel yn yr ardal fynyddig hon yn golygu fod tyfiant planhigion yn gymharol araf. Gall hyn greu amodau anodd iawn i blanhigion ail sefydlu mewn ardal sydd wedi cael ei herydu. Mae'r cyflymdra erydiad mewn ardal yn dibynnu ar ongl y llethr, yr hinsawdd, a'r math o llystyfiant sy'n gorchuddio'r pridd. Mae cawodydd trymion yn gallu rhyddhau a symud pridd ar ben ei hun, ac os yw'r pridd yn ddwrlawn bydd y dŵr yn symud yn gynt i lawr y mynydd. Mae hyn i'w weld yn digwydd mewn ardaloedd lle mae'r pridd wedi ei gywasgu gan draed, gan fod y priddoedd hyn yn dal llai o ddŵr na phriddoedd sydd heb eu cywasgu. Pan fydd y pridd yn ddwrlawn ar ran gwastad o lwybr, mae'n ffurfio pwll. Gan amlaf mae cerddwyr yn trio osgoi pyllau o'r fath, ac yn cerdded o'u hamgylch, gan ledaenu'r ardal sy'n cael ei herydu.

Mae mathau gwahanol o bridd hefyd yn cynnwys gwahanol lefelau o garbon, gyda mawn yn dal y crynhoad uchaf o garbon. Mae erydiad ar fawn yn arwain at ryddhau carbon deuocsid, sef un o'r nwyon sy'n cyfrannu at gynhesu byd eang.

Yng Nghwm Idwal mae ymdrin ag erydiad yn her i'r bartneriaeth, sydd eisiau darparu cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau'r warchodfa heb achosi difrod i'r safle. Ond eto wrth ddenu mwy o bobl i'r ardal mae pwysau traed, ac erydiad yn sgil hynny, yn cynyddu.



Monitro'r llwybrau

ADFER Y LLWYBRAU


Yng Nghwm Idwal, defnyddir cerrig i roi gwyneb ar y llwybrau.

Mae rhinweddau daearegol Cwm Idwal o bwysigrwydd rhyngwladol, ac o'r herwydd ni ddefnyddir cerrig o'r safle. Mae cerrig addas yn cael eu prynu a'u cludo i'r darn o lwybr sydd angen ei drwsio. Gwneir hyn gan amlaf gan hofrennydd, sy'n costio tua £900 yr awr.

Mae gan Warchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal gyllid blynyddol ar gyfer gwaith cyfalaf, fel adfer llwybrau. Gall y cyllid hwn newid yn flynyddol, felly mae'n rhaid blaenoriaethu gwaith llwybrau. Er mwyn darganfod ble mae'r erydu ar ei waethaf, rhaid monitro'r llwybrau yn gyson, a drwy wneud yr arolygon hyn cawn weld pa ddarnau o lwybr sydd angen eu hadfer.

Wrth benderfynu pa ddarn o lwybr sy'n cael ei adfer gyntaf rhaid ystyried y canlynol:

- Pwysau cerdded blynyddol ar y llwybr / beth yw'r peryg fod yr erydiad yn ehangu.
- Bygythiad erydu i rywogaethau.
- Bygythiad erydu i gynefinoedd.
- Perygl posib o lygru.
- Natur a lleoliad y llwybr – bydd canran uwch o ymwelwyr yn defnyddio llwybrau isel yng Nghwm Idwal, felly bydd y pwysau cerdded yn uwch.
- Diogelwch y cyhoedd – Os oes rhywbeth wedi digwydd sydd yn gwneud unrhyw lwybr troed yn beryglus, bydd y darn hwn o lwybr yn cael sylw gyntaf.



Ysbrydoliaeth

Cwm Idwal yn y celfyddydau

KYFFIN WILLIAMS

Ganwyd Kyffin Williams ar Ynys Môn yn 1918 a daeth yn un o artistiaid mwyaf llwyddiannus Cymru, yn enwog am ei baentiadau o dirwedd Cymru a'i phobl. Yn dilyn addysg ym Mae Trearddur ac Amwythig, a chyfnod fel asiant tir ym Mhwlheli, ymunodd yn ddiweddarach â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, lle nad oedd dyfodol iddo oherwydd afiechyd.

Awgrymwyd iddo y dylai ddod yn artist, ac yn 1940 cofrestrodd yn Ysgol Gelf Slade. Tra'n fyfyrwr, nododd Kyffin mai ei ddarlun olew cyntaf erioed oedd 'golwg o Gwm Idwal wedi'i baentio o gof'. Cipiodd yr arlunydd Geoff Squire hyn mewn darlun: 'Kyffin Williams yn paentio ei olew gyntaf', ac mae'n bosib gweld y darlun hwn, gan Geoff Squire, yng Nghasgliad Oriel Môn.

Roedd gan Kyffin Williams wybodaeth fanwl am dirwedd garw Eryri a'i hinsawdd, fel sy'n amlwg yn llawer o'i waith. Arhosodd ei edmygedd o bobl a weithiai'r tir gydag ef gydol ei oes.

Ar ôl gadael y Slade yn 1944, parhaodd Kyffin yn Llundain, gan sicrhau swydd ddysgu yn Ysgol Highgate. Er iddo symud o gefn gwlad Gogledd Cymru, parhaodd ei waith i ddal ysbryd y dirwedd a'i phobl. Byddai'n aml yn dychwelyd adref, gan lenwi llyfrau braslunio gyda darluniau a oedd yn caniatáu iddo greu paentiadau olew yn ei stiwdio yn Llundain. Wedi ymddeol o ddysgu yn 1973, dychwelodd Kyffin i Ynys Môn lle sefydlodd stiwdio ym Mhwlfanogl ar lan Afon Menai, lle gallai edrych dros ei Eryri annwyl. Bu'n gweithio'n ddiflino, gan dderbyn yr OBE am ei wasanaethau i'r celfyddydau yn 1982, a chael ei enwi'n farchog ym 1999. Bu farw yn 2006 yn 88 oed.

Paentwyd y llun ar y dde gan Kyffin Williams tua 1983. Llun o'r enw 'Ffermwyr o Dan Y Grib' (*Olew ar ganfas*), yw hwn ac mae'n dangos ffermwyr yn dychwelyd o'u gwaith o dan y Twll Du yng Nghwm Idwal.









Ysbrydoliaeth

Cwm Idwal yn y celfyddydau

ROB PIERCY

Mae'r arlunydd Rob Piercy o Borthmadog yn esbonio beth sy'n gwneud Cwm Idwal yn arbennig iddo ef:

'Daeth fy nghyswllt cyntaf gyda Chwm Idwal rhwng canol a diwedd y mil naw chwedegau. Yr atyniad oedd chwedlau am graig pum can troedfedd o'r enw Craig Idwal. Doedd dim diddordeb gen i bryd hynny mewn paentio na dim byd arall mewn gwirionedd. Roeddwn wedi llwyr ymgolli mewn dringo creigiau.

Llawer o flynyddoedd yn ddiweddarach roeddwn yn cael fy nhynnu at Gwm Idwal eto, ond y tro yma fel arlunydd mynydd gan ddilyn llwybrau arlunwyr tirwedd Prydeinig nodedig a ddechreuodd ymweld â'r Cwm gafaelgar hwn o ganol y 19eg ganrif. Roedd yr arlunwyr hyn yn ymweld â Chwm Idwal er mwyn darganfod golygfeydd aruchel, rhywbeth a ddaeth yn boblogaidd yn ystod cyfnod Rhamantaidd y 19eg ganrif.

Mewn celf, mae'n her i ddal ac i ddelweddu arucheliaeth y byd o'n cwmpas. Mae geiriau sy'n gysylltiedig gydag Arucheliaeth yn cynnwys arswyd, tywyllwch, tristwch, bygythiol, enfawr a du. Mae'r elfennau hyn i'w gweld yn aml yng Nghwm Idwal. Nid yw fy narluniau tirwedd o fynyddoedd Cymru yn glynu'n bendant at y dull yma o baentio, ond er mwyn dal drama'r mynyddoedd hyn yn effeithiol, mae rhaid cynnwys elfen o ehangder a bygythiad.

Bydd arlunwyr tirlun yn siarad yn drwyadl am bwysigrwydd golau, ond heb y tywyllwch, ni fydd y golau yn effeithiol. Wrth edrych i mewn i Gwm Idwal, rydych yn wynebu'r De Orllewin sy'n golygu eich bod yn edrych i mewn i'r golau, felly pan wyf yn ymlwybro yn ôl i'r car ar ddiwedd diwrnod hir, dwi'n edrych yn ôl am y tro olaf tuag at Y Twll Du, ac os yr wyf yn lwcus mi gaf i'r profiad o weld ysgolion haul yn torri drwy'r cymylau isel, gan oleuo clogwyni uchaf Glyder Fawr, neu'r Llyn islaw, gan adael gweddill yr olygfa yn y tywyllwch.



LISA JÊN – 9BACH

Cipiodd 9bach y wobwr am yr albwm orau yng ngwobrau 'Cerddoriaeth Werin BBC Radio 2' yn 2015. Mae Lisa, sy'n ysgrifennu caneuon y grŵp ac sy'n brif leisydd, wedi'i magu yn Gerlan ac wedi bod yn crwydro'r mynyddoedd hyn ers blynyddoedd. Isod mae Lisa yn esbonio sut mae'r ardal arbennig hon yn ei hysbrydoli:

'Daw egin fy syniadau wrth gerdded yr hen lwybrau, neu nofio yn y nentydd. Mae fy syniadau a' nghreadigrwydd yn llifo drwy'r afonydd glân gloyw; Afon Ogwen, Afon Caseg, Llyn Idwal. Mae'r caneuon yn mynd a chdi'n ôl i'r tirlun yma, ac yn ail-danio'r teimladau hynny ti'n cael wrth drochi dy hun yn dy gynefin. Dwi wedi bod yn anadlu'r aer yma ers erioed, fedrai'm denig- dwi ddim isio chwaith!'

'Llyn Du' gan 9bach – wedi eu hysbrydoli gan yr ardal ogwmpas cwm Idwal a nofel Caradog Prichard – 'Un nos Oleu leuad'

www.youtube.com/watch?v=lajWevmXbLA



Y PRIFARDD IEUAN WYN

Mae rhyw dynfa yn y cwm i mi er pan oeddwn yn hogyn. Dyma ddau atgof sy'n rhoi dau ddarlun cwbl wahanol o'r cwm:

Sefyll yng ngheg y cwm wrth ymyl y Parch. Griffith Parry, ein gweinidog, ar hwyrnos lonydd yn yr haf. Yntau'n 'sgota tair pluen efo genwair greenheart ddeg troedfedd, a hanner dwsin o frithyll bras yn y crwth. Dim i'w glywed yn y llwydwyll ond llepian ysgafn y dŵr ar gerrig y lân a chlician ysbeidiol y ril. Yna, a ninnau ar fin troi am adref, sŵn cipial llwynog o greigiau Clogwyn Tarw y tu ôl inni, a'r cyfarthiad main yn glir dros y cwm fel petai'n datgan ei hawl i'w deyrnas.

Sefyll yng ngheg y cwm yng nghanol storm – a hynny'n fwriadol er mwyn cael y profiad o deimlo'r terfysg – un o ddramâu natur. Y cwm fel pair, yn ferw gwyllt – yn llawn cymylau isel, a'r gwynt nerthol yn eu troelli a gyrru'r glaw trwm i bob cyfeiriad. Ac o dan y cymylau, wyneb y llyn yn gythryblus, a'r gwynt yn sgyrllo – yn cipio a lluchio brig y tonnau. Y cwbl yn llawn symud a sŵn. Pair, yn wir. Crochan y diafol. Does ryfedd i rywun alw'r Twll Du yn Gegin Gythraul.

IEUAN WYN

Lluniau

Geraint Thomas - Panorama Cymru
Alan Pritchard
BTO Cymru
Eifion Griffiths
Alun Williams
Trevor & Dilys Pendleton
Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Cyngor Sir Ynys Môn
Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mynydd
Oriel Môn
Rob Piercy
Lisa Jên
Ieuan Wyn

Diolchiadau

Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
Ieuan Wyn
Lisa Jên
Rob Piercy
Hywel Roberts
Elinor Gwynn
Gwyn Thomas
Hefin Hughes
Gwyndaf Rowlands
Creatives Meet
D13 Creative
Cread Cyf
I.P. Brooks PhD, BA, MCIFA, FSA
Oriel Môn
Archifdy Prifysgol Bangor
Cyngor Sir Ynys Môn
Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



DYLUNIO GAN CREATIVESMEET

Ewch i'r wefan am rhagor o wybodaeth:

www.cwmidwal.cymru